# Powys County Council
# Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor's key activities over the year ending 12 May 2021. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

| | |
|---|---|
| **Councillor:** David R. Price | **Tel:** 01982 553229 |
| **Ward:** Llanafan-fawr | **Mobile:** 07974 761309 |
| **Shire:** Brecknockshire | **Email:** cllr.david.price@powys.gov.uk |
| **Group:** The Independent Group | **Date:** September, 2021 |

**Section 1: Role & Responsibilities**

Details of the Committees and Working Groups in which I participated and my attendance are available via the following link to my page on the Council website:
Committees & attendance

I served on the following outside organisations:
Builth Wells CP school governor
Evans Trust and Pritchard's Trust, Builth Wells High School - Trustee
Wyeside Arts Centre - Board member/ trustee

**Section 2: Constituency activity**

I worked closely with the four Community Councils in my ward, offering support and information when requested. Individual constituents regularly contacted me seeking advice, information and support on a wide range of issues.

I was involved in various on-going projects within the ward including –

Llanafan Fawr/Llanwrthwl Broadband project – seeking a solution to poor broadband provision in this rural area. Working as one of the project team, we meet weekly online with our chosen provider – Broadway Partners, supported by PCC Community Broadband Officer.The project application is awaiting approval from DCMS.
Onlne community meetings chaired by myself to share information.
Organising promotion, including erection of banners and media reports.
Meetings with MP and MS to seek support for the project.
Our project was selected as one of 3 pilot projects supported by PCC Regeneration team. I support my neighbouring councillors in developing their own projects.

I have now instigated a second scheme to cover Duhonw and Cilmeri wards. Work inculdes promotion of the scheme and seeking expresions of interest.

Improvements to Golf Links junction – working with Community Council/local residents in lobbying Welsh Government [WG] (Trunk Road ) to seek improvements to this hazardous junction. Onging correspondence with former MS - Kirsty Williams and Trunk Road Agency. Site meeting held with newly appointed MS – James Evans.

| |
|---|
| Working with Cilmeri Community Council to highlight importance of Llewelyn's Monument. Meetings with WG Heritage Minister and Cadw regarding new signage, information boards etc.<br>New village signs have been erected incorporating reference to Llewelyn.<br><br>Worked with Farming Unions, local representatives and PCC staff to ensure reopening of Builth Livestock Market. Organised gathering of farmers to show support.<br><br>Contiued to work closely with Builth Wells Town Council and Builth Community Support during Covid 19 lockdown. Organising information leaflet drop (supported by Builth Wells YFC) to constituents. Delivering shopping and prescriptions to elderly residents who are isolating. |
| **Section 3: Learning & Development**<br><br>Details of my attendance at learning and development sessions are available via the following link to my page on the Council website:<br>Member development & seminars |
| **Section 4: Outside organisations and other activities**<br><br>No details provided. |

# Cyngor Sir Powys
# Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion gweithgareddau allweddol y Cynghorydd am y flwyddyn sy'n dod i ben ar 12 Mai 2021. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall.

| | |
|---|---|
| **Councillor:** David R. Price | **Ffôn:** 01982 553229 |
| **Ward:** Llanafan-fawr | **Ffôn Symudol:** 07974 761309 |
| **Sir:** Sir Frycheiniog | **E-bost:** cllr.david.price@powys.gov.uk |
| **Grwp** Y Grwp Annibynnol | **Dyddiad:** Medi, 2021 |

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Mae manylion y Pwyllgorau a Gweithgorau yr wyf wedi cymryd rhan ynddynt ynghyd â'm presenoldeb ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i'm tudalen ar wefan y Cyngor:
Pwyllgorau a phresenoldeb

Gwasanaethais ar y cyrff allanol canlynol:
Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt - Llywodraethwr
Evans Trust a Pritchard's Trust, Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, Ymddiriedolwr
Canolfan Gelfyddydol Wyeside - Aelod o'r Bwrdd/ymddiriedolwr

**Adran 2: Gweithgaredd yr etholaeth**

Cydweithiais yn agos â'r pedwar Cyngor Cymuned yn fy ward, gan gynnig cefnogaeth a gwybodaeth ar eu cais. Bu etholwyr unigol yn cysylltu â mi'n rheolaidd yn ceisio cyngor, gwybodaeth a chymorth ar amrywiaeth eang o faterion.

Bûm yn ymwneud ag amrywiol brosiectau parhaus yn y ward, gan gynnwys -

Prosiect Band Eang Llanafan Fawr/ Llanwrthwl - ceisio ateb i'r ddarpariaeth band eang wael yn yr ardal wledig hon. Gan weithio fel un o dîm prosiect, rydym yn cwrdd yn wythnosol ar-lein gyda'r darparwr a ddewiswyd gennym ni – *Broadway Partners,* a gefnogir gan Swyddog Band Eang Cymunedol CSP. Mae cais y prosiect yn disgwyl am gymeradwyaeth oddi wrth DCMS.
Cyfarfodydd cymunedol ar-lein sy'n cael eu cadeirio gennyf i rannu gwybodaeth.
Trefnu gwaith hyrwyddo, gan gynnwys codi baneri ac adroddiadau i'r cyfryngau.
Cyfarfodydd gydag Aelod Seneddol ac Aelod o'r Senedd i geisio cael cefnogaeth i'r prosiect.
Dewiswyd ein tîm fel un o 3 phrosiect peilot a gefnogir gan dîm Adfywio CSP. Rwyf yn cefnogi fy nghynghorwyr cyfagos wrth ddatblygu prosiectau eu hunain.

Rwyf wedi dechrau ail gynllun erbyn hyn i ddarparu ar gyfer wardiau Duhonwy a Chilmeri. Mae gwaith yn cynnwys hyrwyddo'r cynllun a chwilio am fynegiadau o ddiddordeb.

| |
|---|
| Gwelliant i gyffordd y Golf Links - gweithio gyda'r Cyngor Cymuned/preswylwyr lleol i lobïo Llywodraeth Cymru [LlC] (Cefnffordd) i geisio gwelliannau i'r gyffordd beryglus hon. Gohebiaeth barhaus gyda'r cyn AS – Kirsty Williams a'r Asiantaeth Cefn Ffyrdd. Cynhaliwyd cyfarfod safle gyda'r Aelod newydd o'r Senedd a benodwyd yn ddiweddar – James Evans.<br><br>Gweithio gyda Chyngor Cymuned Cilmeri i ddwyn sylw at bwysigrwydd Cofeb Llywelyn. Cyfarfod â Gweinidog Treftadaeth LlC a Cadw ynghylch arwyddion, byrddau gwybodaeth ac ati.<br>Mae arwyddion pentref newydd wedi cael eu codi yn cynnwys cyfeiriad at Lywelyn.<br>Rwyf wedi gweithio gyda'r Undebau Ffermio, cynrychiolwyr lleol a staff CSP i sicrhau ailagor Marchnad Da Byw Llanfair-ym-Muallt. Rwyf wedi trefnu casgliad o ffermwyr i ddangos cefnogaeth..<br><br>Rwyf wedi parhau i weithio'n agos gyda Chyngor Tref Llanfair-ym-Muallt a Chymorth Cymuned Llanfair-ym-Muallt yn ystod y cyfnod clo Covid 19. Rwyf wedi trefnu dosbarthu taflen (gyda chefnogaeth Clwb Ffermwyr Ieuainc Llanfair-ym-Muallt) i etholwyr. Rwyf wedi dosbarthu nwyddau siopa a phresgripsiynau i drigolion hŷn sy'n ynysu. |
| **Adran 3: Dysgu a Datblygu**<br><br>Mae manylion fy mhresenoldeb yn y sesiynau dysgu a datblygu ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i'm tudalen ar wefan y Cyngor:<br>Seminarau a Datblygu Aelodau |
| **Adran 4: Sefydliadau allanol a gweithgareddau eraill**<br><br>Ni roddwyd unrhyw fanylion. |